

Y Rheoliadau Dŵr

Sut maen nhw'n
effeithio ar eich
Busnes



Beth yw'r Rheoliadau?

Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn berthnasol i safleoedd sy'n derbyn cyflenwad o ddŵr iach gan Ddŵr Cymru.

Y Rheoliadau yw'r gofynion cenedlaethol o ran dylunio, gosod a chynnal a chadw systemau plymio, ffitiadau dŵr a dyfeisiau ar draws Cymru a Lloegr.

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesur gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad ein cyflenwadau ddŵr ar gyfer cwsmeriaid.


Ymhle mae'r Rheoliadau'n berthnasol?

Ar y cyfan, mae'r Rheoliadau'n berthnasol o'r pwynt lle mae'r cyflenwad yn mynd i mewn i'r bibell gyflenwi breifat sy'n cyflenwi eiddo ein cwsmeriaid, hyd nes iddo gael ei ddefnyddio mewn tapiau, falfiau a dyfeisiau.

Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau?

Fel perchnogion neu ddeiliaid yr eiddo rydym yn ei gyflenwi, rhaid i'r cwsmeriaid gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yma.

Mae'r Rheoliadau'n sôn hefyd am y bobl sy'n gosod y ffitiadau dŵr; sy'n golygu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gosod neu'n cynnal ffitiadau dŵr sicrhau bod eu gwaith yn bodloni'r gofynion.



Rôl Dŵr Cymru

Fel cyflenwr eich dŵr, mae dyletswydd ar Ddŵr Cymru i orfodi gofynion y Rheoliadau yn eich eiddo.

Mae ein Rheoleiddwyr yn ein harchwilio ni o ran sut rydyn ni'n gweithredu yn y rôl er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu mewn perthynas â'n cwsmeriaid yn gyson, yn deg ac yn cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau.

Rydyn ni'n cyflawni archwiliadau cynlluniedig ac ymatebol sy'n blaenoriaethu eiddo lle teimlir bod y risg bosibl o hlogiad i'r defnyddwyr, a'n rhwydwaith cyflenwi dŵr ar ei uchaf. Os yw'r amser wedi dod i archwilio'ch eiddo chi, byddwn ni'n cysylltu â chi i drefnu cyn dod.

Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n falch o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Os byddwn ni'n dod o hyd i rywbeth nad yw'n gyson â gofynion y Rheoliadau, fe wnawn ni bopeth y gallwn ni i weithio gyda'n cwsmeriaid i helpu i unioni pethau.

Rydyn ni'n cynorthwyo ein cwsmeriaid hefyd trwy ymgysylltu â nhw am unrhyw waith plymio maent yn ei gynllunio. Os byddan nhw'n rhoi gwybod i ni cyn dechrau'r gwaith, gallwn gynnig arweiniad iddynt o'r cychwyn, a bod yn sicr bod y gwaith yn cydymffurfio.

Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi polisi gorfodi ar ein gwefan sy'n cynnig rhagor o fanylion am sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws ein hardal gyflenwi.



Polisi Gorfodi:

www.dwrcymru.com/rheoliadoudwr

Beth allwch chi ei wneud i gydymffurfio?

Nid ydym yn disgwyl i'n holl gwsmeriaid wybod beth yw holl ofynion y Rheoliadau, ond gallwch chi chwarae'ch rhan.

Cynnyrch sy'n cydymffurfio

Wrth ystyried prynu ffitiadau a dyfeisiau plymio, mae hi'n syniad da bob tro sicrhau bod y cynnyrch rydych chi'n ei ddewis o ansawdd a safon priodol. Dylech ystyried hefyd a yw'r peth rydych chi am ei osod yn addas at yr amgylchiadau lle caiff ei ddefnyddio.

Mae'r Rheoliadau'n manylu ar y gofynion o ran ffitiadau dŵr, ac yn darparu rhestr o ffyrdd y gellir profiad bod ffitiad neu gynnyrch yn cydymffurfio. Cydymffurfiaeth â Rheoliad 4 yw'r enw ar hyn.

Contractwyr cymeradwy

WaterSafe yw'r gofrestr genedlaethol ar gyfer Contractwyr Cymeradwy, fel plymwyr a gosodwyr pibellau cyflenwi dŵr. Bydd gan yr aelodau gymwysterau ac yswiriant cydnabyddedig, sy'n golygu y gallwch fod yn hyderus y caiff y gwaith ei gyflawni'n gywir â'r holl fesurau diogelu priodol.

Mae plymwyr sy'n aelodau o'r cynlluniau hyn yn cael eu harchwilio'n gyson gan Ddŵr Cymru er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cydymffurfio.

Mae aelodau WaterSafe wedi eu heithrio rhag gorfod ein hysbysu ni ymlaen llaw am rai mathau o waith. Fel arall, byddai angen iddynt gyflwyno hysbysiad, a byddai angen aros i gael ein caniatâd ni cyn cychwyn arni. Bydd Contractwyr Cymeradwy yn darparu tystysgrif ar eich cyfer sy'n datgan bod eu gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Gallwch ddod o hyd i'ch contractwr cymeradwy lleol trwy fynd i'n gwefan yn www.dwrcymru.com a defnyddio bar chwilio hwylus WaterSafe ar ein tudalen hafan.

Hysbysu

Mae'n ofynnol eich bod chi'n ein hysbysu ni am sawl math o waith plymio cyn dechrau'r gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr yfed yn ddiogel bob tro. Rydyn ni'n adolygu'r holl hysbysiadau a anfonir atom, a gallwn bennu amodau ar unrhyw waith gosod lle bo hynny'n briodol.

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr o waith y mae angen ein hysbysu yn ei gylch ymlaen llaw o dan ofnyion y Rheoliadau.

Tabl gwaith hysbysadwy

1. Codi adeilad neu strwythur arall nad yw'n bwl neu bwl nofio.

2. Ymestyn neu ddiwygio system ddŵr ar unrhyw eiddo arall heblaw am dŷ.

3. Newid materol yn nefnydd unrhyw eiddo.

4. Gosod:

- a) Bath â capasiti o fwy na 230 litr wedi ei fesur i linell ganol y gorlif;
- b) Bidet â chwistrell codi neu bibell hyblyg;**
- c) Uned cawod sengl (a all gynnwys un neu ragor o bennau cawod o fewn un uned), heb fod yn gawod drochi, sydd wedi ei gosod am resymau diogelwch neu iechyd, sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi o fath y mae'r rheoleiddiwr yn ei bennu;
- d) Pwmp neu gyfnerthydd sy'n tynnu mwy na 12 litr y funud, sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi;
- e) Uned sy'n ymgorffori osmosis o chwith;
- f) Uned trin dŵr sy'n rhyddhau dŵr gwastraff, neu sy'n gofyn am ddefnyddio dŵr at ddibenion adfywio neu lanhau;
- g) Cyfarpar â falf parth pwysau is neu ddyfais fecanyddol arall i amddiffyn rhag hylifau â chategori hylif 4 neu 5;
- h) System dyfrio gardd, oni bai ei bod wedi ei dylunio i gael ei defnyddio â llaw; neu
- i) Unrhyw system ddŵr a osodir y tu allan i adeilad ac sydd naill ai'n llai na 750mm neu dros 1350mm islaw lefel y ddaear.

5. Adeiladu pwll neu bwl nofio â capasiti o fwy na 10,000 litr, y bwriedir iddo gael ei adlenwi trwy ddulliau awtomataidd gan ddefnyddio dŵr wedi ei gyflenwi gan ymgymerydd dŵr.

Cofiwch, mae rhai mathau o waith wedi'u heithrio o'r gofyniad i roi gwybod os ydych chi'n defnyddio contractwr cymeradwy, fel plymwr a restrir gan WaterSafe.



Mae methiant i hysbysu am unrhyw un o'r darnau uchod o waith yn drosedd o dan y Rheoliadau. Gallwch ddysgu rhagor am hysbysu, a sut i'n hysbysu ni trwy fynd i dwcymru.com/hysbyswedd

Categoriâu Hylif – adnabod y risg

Rhodir graddfa risg Categori Hylif i ffitiadau dŵr a halogyddion hysbys. Mae'r Categori Hylif yn dangos lefel y risg i'r cyflenwad dŵr yfed a'r rhwydwaith ehangach pe bai halogiad yn digwydd.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, po uchaf yw'r categori, po uchaf yw lefel y risg. Categori Hylif 1 yw'r categori a roddir i'r dŵr iach rydym yn ei gyflenwi, ac mae risgiau Categori Hylif 5 yn cynnwys pethau fel gwastraff anifeiliaid neu sylweddau gwenwynig iawn a all gael eu dŵr broses.

Aseinir trefniadau neu ddyfeisiau amddiffyn rhag adlif i bob un o'r categorïau hyn, ac mae'r rhain yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn y cyflenwad dŵr rhag halogiad posibl.

Rydyn ni wedi derbyn canllawiau gan ein Rheoleiddiwr i'n helpu ni i bwysu a mesur lefel y risg sy'n deillio o wahanol fathau o brosesau neu osodiadau mewn ffordd gyson. Mae detholiad o'r rhain isod:

Categori
Hylif
1

Categori Hylif 1

Dŵr iach, fel y mae'n cael ei gyflenwi'n uniongyrchol o brif bibell ymgymerydd dŵr. Rhaid i hyn gydymffurfio â gofynion rheoliadau a wnaed o dan adran 67 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Categori
Hylif
2

Categori Hylif 2

- Cymysgu cyflenwadau dŵr poeth ac oer
- Systemau chwistrellu tân (heb wrthrewydd)
- Peiriannau gwerthu diodydd lle nad oes unrhyw gynhwysion na charbon deuocsid yn cael eu chwistrellu i'r bibell gyflenwi neu'r bibell ddsbarthu mewnol
- Peiriannau gwneud iâ

Categori
Hylif
3

Categori Hylif 3

- Peiriannau gwerthu diodydd lle mae cynhwysion neu garbon deuocsid yn cael eu hychwanegu
- Peiriannau meddalu masnachol (adferiad halen cyffredin yn unig)

Categori
Hylif
4

Categori Hylif 4

- Systemau chwistrellu tân sy'n defnyddio toddyddion gwrthrewi
- Offer rheweiddio
- Peiriannau bragu a distyllu
- Offer diheintio diwydiannol
- Peiriannau golchi dillad masnachol

Categori
Hylif
5

Categori Hylif 5

- Systemau ailgylchu dŵr llwyd
- Sinciau, wrinalau, paniau tŷ bach a bidets
- Labordai
- Peiriannau diwydiannol a chemegol ac ati
- Peiriannau golchi dillad masnachol ar safleoedd gofal iechyd
- Peiriannau golchi llestri ar safleoedd gofal iechyd
- Storfeydd dŵr at ddibenion diffodd tân.

Pethau i'w nodi am eich system blymio.

I'ch helpu chi i ystyried y risgiau sy'n bresennol yn y mwyafrif o systemau plymio, dyma rhai o'r meysydd allweddol o ddiffyg cydymffurfiaeth rydym yn dod ar eu traws yn eiddo ein cwsmeriaid.



1. Amddiffyniad Parthol rhag Adlif

Mae angen amddiffyniad rhag adlif, nid yn unig i amddiffyn y cyflenwad dŵr o'r brif bibell sy'n dod i mewn i'r eiddo, ond hefyd i amddiffyn y dŵr o fewn y system blymio fel ei fod yn parhau i fod yn addas at ddibenion yfed ac iechydaeth y defnyddiwr.


Un ffordd o sicrhau hyn yw trwy osod amddiffyniad parthol rhag adlif ar y cyflenwad ar gyfer unrhyw ardaloedd prosesu ar y safle. neu ar y llinellau sy'n bwydo'r ardaloedd lle mae dŵr yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill lle nad oes angen iddo fod yn iach. Esiampl o hyn fyddai gosod seston storio pwrpasol â bwllch aer priodol i fwydo unrhyw beiriannau golchi.

2. Tapiau ag Uniad Pibell Chwistrellu

Mae'r risg o dap ag uniad pibell chwistrellu'n amrywio yn dibynnu ar gategori hylif unrhyw hylifau sy'n dod i gysylltiad ag ef. Er enghraifft, ystyrir bod tap ag uniad pibell chwistrellu sy'n cael ei ddefnyddio i olchi binau neu ardaloedd sbwriel yn risg categori hylif 5.

Mae'r ddelwedd isod yn dangos beth y mae risg y Categori Hylif yn ei olygu o ran y math o amddiffyniad rhag adlif sydd ei angen.


Risg





Awgrym

Defnyddiwch glipiâu dal neu rîl pibell hunan dynnu'n ol i ddal y bibell yn ei lle a'i hatal rhag mynd o dan y dŵr neu gael ei halogi gan unrhyw beth sydd gerllaw.



Ni ddylid byth rhoi diwedd y bibell dan y dŵr mewn bwced, sinc, draen nac yn gorwedd ar y llawr.

3. Peiriannau

Yn debyg i'r tapiau ag uniad pibell chwistrellu, gall lefel y risg sy'n cael ei achosi gan ddyfeisiau, fel peiriannau golchi llestri a dillad, amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu defnydd.

Bydd amddiffyniad angenrheidiol rhag adlif wedi ei ymgorffori i ddyluniad rhai dyfeisiau masnachol. Cofiwch, cyn gosod dyfais newydd, rhaid cyflwyno hysbysiad i ni er mwyn i ni eich cyngori am lefel yr amddiffyniad sydd ei hangen. Hyd yn oed os ydych chi'n disodli dyfais, mae'n bwysig eich bod chi'n dilyso hyn trwy gadarnhau gyda'ch cyflenwr fod ganddi'r amddiffyniad angenrheidiol rhag adlif cyn ei defnyddio yn eich eiddo.

Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â ni. Byddwn ni'n ystyried unrhyw dystiolaeth o gydymffurfiaeth a ddarperir am gynnyrch penodol ac yn eich cyngori a yw'n addas ai beidio.

4. Systemau Cylch Caeedig

Ystyrir bod systemau cylch caeedig, fel systemau gwres canolog ar safleoedd annomestig, yn risg Hylif Categori 4. Gellir cyflenwi'r systemau hyn gan ddefnyddio unedau pwysedd, sy'n ateb effeithiol fel rheol wrth gynnig y lefel briodol o amddiffyniad rhag adlif.

Rydyn ni'n dueddol hefyd o weld falfiau Pwysedd Pwysau Is (RPZ) yn cael eu defnyddio fel ffitiadau i ddarparu ateb ategol ar y llinell. Dyfais fecanyddol yw'r falf RPZ sy'n gallu darparu amddiffyniad digonol rhag adlif hyd at risg Hylif Categori 4. Rhaid gosod, comisiynu a phrofi'r dyfeisiau hyn o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol â gofynion AIM-08-01.

Dylid ystyried y costau a'r cyfrifoldeb dros gynnal-a-chadw'r ffitiadau hyn yn barhaus wrth benderfynu gosod falf RPZ. I gael rhagor o fanylion am falfiau RPZ, ewch i www.dwrcymru.com/falfiauRPZ.

5. Pibellwaith Segur

Dyma un o'r diffygion mwyaf cyffredin y ffeindiwn mewn systemau plymio cyfredol. Mae hyn yn digwydd pan nad yw darnau o bibellwaith yn cael eu defnyddio mwyach neu'n cael eu capio yn hytrach na'u dileu.

Mae'r dŵr sy'n eistedd yn y bibell segur yn gallu troi'n ferddwr, gan hwyluso twf micro-organebau niweidiol sy'n gallu cael eu tynnu nôl i mewn i'ch system blymio pan fo'r pwysedd yn disgyn.

Mae osgoi pibellwaith segur yn rhwydd. Os nad yw'r pibellwaith a'r ffitiadau'n cael eu defnyddio, tynnwch nhw a'u holrhain nôl i'r gangen lle maen nhw'n dechrau. Os oes gennych ddarnau o bibellwaith y mae angen eu cadw, ond nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, sicrhewch fod modd ynysu'r rheiny a'u draenio yn ystod y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

6. Cawodydd

Os oes cawodydd gennych yn eich busnes, mae'n bwysig nad oes modd gadael eu hallfeydd dan ddŵr neu ar lawr y gawod.

Lle bo hynny'n ymarferol, rydyn ni'n argymhell defnyddio cawodydd â phen sefydlog heb bibell hyblyg. Os oes angen pibell, dylid ei gwtogi neu ei atal yn barhaol fel nad oes modd ei gadael mewn manau lle bo risg o ad-seiffonau.



Ble ddylwn i droi i gael rhagor o wybodaeth?

Cwmni sy'n darparu canllawiau a chynghor cyhoeddedig ar ofynion y Rheoliadau yw Water Regs UK.

Mae eu gwefan yn cynnwys nifer o ddogfennau defnyddiol sydd ar gael yn rhydd i bawb, ac mae eu gwasanaethau ymholiadau technegol wrth law i geisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gallwch gysylltu â Water Regs UK trwy fynd i www.waterregsuk.co.uk neu roi galwad iddynt ar 01495 983 010.

Cysylltu â Ni

Os oes cwstiynau gennych am osodiad penodol neu rywbeth sy'n gysylltiedig â'r ffordd rydym yn gorfodi'r Rheoliadau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni'n uniongyrchol.

Mae yna rywffaint o wybodaeth am y Rheoliadau ar ein gwefan, a gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth yna trwy sganio'r cod QR isod neu trwy fynd i www.dwrcymru.com/cy-gb/help-advice/water-regulations

Gallwch gysylltu â'n fîm Rheoliadau Dŵr trwy e-bostio waterregulations@dwrcymru.com neu trwy ein ffonio ni ar 01792 841 572.

